

---

# Strydoedd Glân, Ailgylchu a'r Amgylchedd: Y Cynghorydd Michael Michael

# UCHELGAIS PRIFDDINAS



Mae cadw ein strydoedd a'n cymdogaethau yn lân a'u cynnal yn un o brif flaenoriaethau'r Weinyddiaeth hon. Mae un arolwg ar ôl y llall o drigolion Caerdydd yn dangos mai glendid strydoedd yw un o'r materion pwysicaf iddynt. Rydyn ni'n cytuno. Mae strydoedd glân yn rhan allweddol o gymunedau cryf a chadarn, lle mae pobl yn falch o'u hardal leol ac yn gofalu am ei gilydd. Rydym yn ymrwymedig i barhau i lanhau ein cymdogaethau'n drylwyr, a byddwn yn adolygu ein gwasanaeth glanhau strydoedd i sicrhau ein bod yn cyflawni hyd eithaf ein gallu i Gaerdydd.

Ond nid dim ond cyfrifoldeb y Cyngor yw cadw Caerdydd yn lân. Mae'n gyfrifoldeb ar bob un ohonom. Mae gan bawb sy'n byw, gweithio, dysgu neu chwarae yma gyfrifoldeb i'w gilydd, ac i'r ddinas, i helpu i gadw ein strydoedd yn lân. Rydyn ni am i gynifer o bobl â phosibl gyfrannu, drwy gymryd rhan yn ein hymgyrch 'Carwch Eich Cartref', drwy beidio â thafu sbwriel yn y lle cyntaf neu roi gwybod am bobl sy'n gwneud. Byddwn yn ymrwymo i weithredu polisi 'dim goddefgarwch', gan gynyddu gweithgareddau gorfodi a rhoi dirwyon i bobl sy'n taflu sbwriel a thipio'n anghyfreithlon ac sy'n dangos diffyg parch llwyr i'w cymdogion a'u cymunedau.

Caerdydd yw dinas fawr orau Prydain o ran ailgylchu. Mae'r gyfradd ailgylchu gwastraff y cartref eisoes wedi cynyddu o 4% i 58% ers 2001. Wrth i'r ddinas dyfu, bydd mwy o bobl yn byw yma, mwy o fusnesau'n symud yma a mwy o bobl yn ymweld. Bydd hyn yn arwain at fwy o wastraff. Felly, mae'n rhaid i ni fodloni targedau ailgylchu heriol yn ôl cyfraith Llywodraeth Cymru, sef 64% erbyn 2020 a 70% erbyn 2025 os ydym am osgoi dirwyon sylweddol. Dyna pam ein bod yn ymrwymedig i barhau gyda'r gwelliannau ailgylchu mawr rydyn ni wedi'u gweld dros y 15 mlynedd ddiwethaf, ac i wneud Caerdydd yn ddinas flaenllaw ar lefel fyd-eang yn y maes allweddol hwn o gynaliadwyedd amgylcheddol.

Ni fydd diogelu amgylchedd ein dinas a gwella ein cynaliadwyedd yn rhwydd ar adeg o gynydd didrugaredd yn y sector cyhoeddus. Bydd yn golygu herio hen ffyrdd o wneud pethau, a herio ein hunain – a'n dinasyddion – i gofleidio newid os yw hynny'n golygu y gallwn gynnig gwasanaeth gwell i bobl Caerdydd, amodau gweithio gwell i'n staff, a phrifddinas fwy cadarn a chynaliadwy i Gymru.

## Byddwn yn:

- Datblygu dull '**Stryd Gyfan**' o gadw strydoedd a manau cyhoeddus yn lân, gan gydlyn gwasanaethau'r Cyngor.
- Parhau gyda'r ymgyrch '**Carwch Eich Cartref**' lwyddiannus i gefnogi trigolion a grwpiau cymunedol i gymryd mwy o gyfrifoldeb am lendid eu cymunedau lleol.
- Mabwysiadu dull **dim goddefgarwch** mewn perthynas â thipio anghyfreithlon a thafu sbwriel.
- Datblygu dull rhagweithiol systematig o **orfodi** ar strydoedd ac mewn manau cyhoeddus, gan gynnwys:
  - Gweithredu Gorchmynion Diogelu Manau Cyhoeddus i gael gwared ar ymddygiad gwrthgymdeithasol.
  - Gwella addysg a gorfodaeth yn ymwneud â sbwriel, baw cŵn a thipio anghyfreithlon.
- Cefnogi **gweithrediad y Strategaeth Aer Glân** drwy hyrwyddo cerbydau allyriadau isel gyda ffocws ar fflyd y Cyngor ei hun.
- Ystyried rhaglen ar gyfer ôl-osod ynni adnewyddadwy mewn ysgolion a datblygu cynigion am **Rwydwaith Gwres Cynaliadwy** i'r ddinas.
- Llunio **Strategaeth Bwyd a Bwyd Stryd** i Gaerdydd.
- **Hybu cyfraddau ailgylchu** drwy roi ffocws ar addysg mewn ysgolion, ymgysylltu â chymunedau, newid ymddygiad ac ategu gwasanaethau ailgylchu.
- Gwella perfformiad ailgylchu a mynd i'r afael â sbwriel ar y stryd drwy ystyried cyfleoedd gyda phartneriaid, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, i **gyflwyno pecynnau bwyd mwy cynaliadwy mewn siopau cludfwyd**.
- Ystyried opsiynau am **Ganolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref newydd** i ateb y twf yng ngogledd y ddinas ac **agor cyfleusterau Canolfan Ailddefnyddio newydd mewn partneriaeth â'r trydydd sector**.
- Ystyried mwy o gydweithredu ag awdurdodau lleol cyfagos ar ddarparu gwasanaethau gwastraff, gan gynnwys gwasanaethau seilwaith a rennir.
- Cynnig datrysiaid hirdymor i **sicrhau bod digon o ofod claddu** i fodloni anghenion poblogaeth gynyddol y ddinas yn y dyfodol.
- Datblygu **gwasanaeth cynaliadwy gwell ar gyfer rhoi cŵn strae mewn cynelau a chartrefi**.
- **Sicrhau bod defnyddwyr taci ac ymwelwyr â'r ddinas yn cael gwasanaeth cyson o ansawdd a bod gyrywyr taci Caerdydd yn cael cystadlu'n deg** drwy ddefnyddio ein pŵerau rheoleiddiol i gefnogi cwsmeriaid.
- **Helpu i ddiogelu'r cyhoedd a sicrhau bod busnesau'n ymddwyn yn gyfrifol** drwy ddarparu'r Gwasanaeth Rheoleiddio cydweithredol.